

# BE THE WAVE AR FRIG Y DON

## Stopio'r Bloc

Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

MARINE  
CONSERVATION  
SOCIETY



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a  
Buddosodi Ewropeaidd  
European Structural  
and Investment Funds



Ariennir gan  
Llywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government



## Systemau draenio a charthffosiaeth

Mae dau fath o system garthffos yn dod allan o'n tai – y system carthffos gyfun a'r system garthffos ar wahân. Mae'n gyfraith bellach fod systemau ar wahân yn cael eu defnyddio pan fydd tai newydd yn cael eu hadeiladu, ond, dim ond ers tua 20 mlynedd mae hyn wedi digwydd. Cyn hynny, roedd y systemau i gyd yn systemau cyfun, felly mae llawer o dai yng Nghymru ar systemau cyfun sy'n golygu bod glaw trwm yn eu hachosi i orlifo. Os yw system gyfun yn gorlifo, mae'r holl sbwriel yn ogystal â gwastraff stormydd yn mynd i mewn i'r draeniau llifogydd ac mae'r dŵr glanweithiol heb ei drin yn cyrraedd afonydd/moroedd.

Nid yw pobl yn sylweddoli chwaith fod draeniau llifogydd ar y stryd yn gwagio'n syth i afonydd/moroedd, felly nid oes gobaith dal unrhyw sbwriel sy'n cael ei olchi i mewn i'r draeniau hyn cyn iddo gael ei waredu i'r afonydd ac yna'r môr.

Er mwyn osgoi llifogydd mewn tai, yn dilyn glaw trwm iawn, caniateir i weithiau trin dŵr ollwng rhywfaint o ddŵr sydd heb ei drin yn uniongyrchol i'r afonydd/môr. Fodd bynnag, canfuwyd bod rhai weithiau trin dŵr (gan gynnwys Dŵr Cymru) yn gwaredu llawer mwy na'r swm a reoleiddir. Gwelir hyn yn yr ymchwiliad Panorama 'River Pollution Scandal'  
<https://www.bbc.co.uk/programmes/m000vk71>

### 'Dŵr gwastraff trefol'

Hwn yw cymysgedd o ddŵr gwastraff domestig o geginau, ystafelloedd ymolchi a thoiledau, dŵr gwastraff o ddiwydiannau'n gollwng i garthffosydd, a dŵr ffo o ffyrdd ac arwynebau anhydraidd fel toeau, palmentydd a ffyrdd yn draenio i'r carthffosydd. Cyfeirir yn aml at ddŵr gwastraff trefol fel 'carthion'.

### Draeniau Llifogydd/Draeniau Dŵr Ffo Storm

Mae'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer dŵr glaw yn unig ac felly nid ydynt yn cynnwys systemau hidlo na thrin. Yn aml, credir bod draeniau ar ochr y ffordd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith drin ac mewn rhai llefydd mae'r draeniau hyn wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith, fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn gollwng yn syth i gwrs dŵr neu'r môr. Mae'n well cofio eu bod nhw ar gyfer dŵr glaw yn unig. Yn syml, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth, a phobl yn arllwys gwastraff neu ollwng sbwriel i ddraeniau allanol, gall hyn olygu weithiau fod sbwriel, hylifau glanhau, brasterau neu olew, paent a dŵr golchi ceir yn cyrraedd y dŵr ac yn cael effaith negyddol ar ansawdd ddŵr yr afon, llyn neu draeth cyfagos.

Mae eitemau eraill yn cyrraedd draeniau llifogydd oherwydd bod pobl yn taflu sbwriel. Gall poteli, pacedi creision, papurau melysion ac yn y blaen, gael eu chwythu gan y gwynt neu gael eu golchi i'r draeniau llifogydd a fydd yn mynd â nhw yn syth i'r dyfrffyrdd. Bonion sigarêts yw'r math mwyaf cyffredin o sbwriel ac yn aml yn cael eu golchi lawr draeniau gan gyrraedd y môr yn y pendraw. Dylid diffodd bonion sigarêts ac yna eu taflu i'r bin gyda sbwriel arall. Yn ogystal â hyn, camgymeriad arall sy'n cael ei wneud yw bod pobl yn gwagio bwcedi mop, golchiadau DIY, dŵr golchi ceir i lawr draeniau ac felly yn syth i'r afonydd a'r moroedd.



## Pethau na ellir eu fflysio

Mae'r rhan fwyaf o weips gwlyb wedi'u gwneud o blastig, felly nid ydynt yn dadelfennu fel y mae papur tŷ bach yn ei wneud. Dangosodd ymchwil a gafodd ei wneud ar ran y cwmnïau dŵr fod y rhan fwyaf o weips gwlyb yn methu dadelfennu mewn amodau a oedd yn efelychu system carthffosiaeth y DU. Yn hytrach, maent yn glynu at ei gilydd mewn mynyddoedd braster (fatbergs) sy'n costio'r DU £100m bob blwyddyn i'w clirio.

- Mae 90% o weips gwlyb yn cynnwys rhyw fath o blastig. Nid yw'r plastig o weips gwlyb byth yn mynd i ffwrdd – mae'n troi'n ficroplastigau bychain. O ganlyniad mae llygredd plastig yn ein cefnforoedd, dyfrffyrdd a hyd yn oed yn ein cadwyni bwyd.
- Cofnododd arolwg Y Gymdeithas Cadwraeth Forol gynnydd o 700% yn llygredd weips gwlyb dros y degawd diwethaf.
- Daeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol o hyd i 14 o weips gwlyb fesul 100m ar arfordir y DU.
- Mae weips gwlyb yn achosi 300,000 o garthffosydd i flocio bob blwyddyn yn y DU.
- Mae nwyddau mislif yn eitemau cyffredin i'w canfod ar draethau.
- Mae pecyn brand-mawr o 14 o badiu mislif yn cynnwys yr un faint o blastig â 5 bag cario.
- Mae tua 2.5 miliwn o damponau, 1.4 miliwn o badiu a 700,000 o badiu leinin ysgafn yn cael eu fflysio bob dydd yma yn y DU!

## Beth yw mynydd braster?

Mae mynyddoedd braster yn cael eu ffurfio o gyfuniad o lawer iawn o wastraff solet sy'n tagu systemau carthffosiaeth. Maent wedi'u gwneud o weips gwlyb, nwyddau mislif a chewynnau sydd wedi cael eu fflysio i lawr y toiled yn ogystal â braster, saim ac olew wedi'u tewychu sydd wedi eu harllwys i lawr y sinc neu'r draen. Mae 93% o fynyddoedd braster wedi'u gwneud o weips gwlyb. Mae'r cyfuniad o fraster wedi'i dewychu ac eitemau plastig un tro yn parhau i dyfu o dan y ddaear, gan flocio systemau nes bod y peipiau yn methu ymdopi rhagor. Mae hyn yn achosi llifogydd sydd yna yn mynd i'r afonydd a'r moroedd naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddraeniau llifogydd.

<https://www.citytosea.org.uk/campaign/unflushables/>

<https://www.litterfreecoastandsea.co.uk/only-rain-down-the-drain/>

<https://www.bbc.co.uk/newsround/47117422>



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB  
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru



Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13  
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13